# Y Pwyllgor Deisebau

## PET(3) 02-10 : Cofnodion

**Dyddiad: Dydd Llun 1 Chwefror 2010**
**Amser: 09.30 - 11.34**
**Lleoliad: Canolfan Catrin Finch, Prifysgol Glyndŵr, Wrecsam**

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Christine Chapman AC, Cwm Cynon (Cadeirydd)

Andrew RT Davies AC, Canol De Cymru

Mike German AC, Dwyrain De Cymru

Janet Ryder AC, Gogledd Cymru

### Swyddogion

Naomi Stocks, Clerc

Andrew Minnis, Dirprwy Glerc

Joanest Jackson, Cynghorydd Cyfreithiol

### Cyflwynwyr

Pol Wong, Cyngor Pobl Gogledd Cymru (eitem 2)

Y Cynghorydd Carrie Harper, Cyngor Pobl Gogledd Cymru (eitem 2)

Y Cynghorydd Marc Jones, Cyngor Pobl Gogledd Cymru (eitem 2)

Y Cynghorydd Denis Knowles, Cadeirydd, Cynghrair Merswy Dyfrdwy (eitem 3)

Y Cynghorydd Tony Sharps, Is-gadeirydd, Cynghrair Merswy Dyfrdwy (eitem 3)

Y Cynghorydd Aled Roberts, Cynghrair Merswy Dyfrdwy (eitem 3)

Trefor Owen, Cyfarwyddwr, Comisiwn Coedwigaeth Cymru (eitem 5)

**1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon**

Cafwyd ymddiheuriadau gan Bethan Jenkins. Roedd Janet Ryder yn dirprwyo.

### 2. Sesiwn dystiolaeth: P-03-243 Tynnu'n ôl yn ffurfiol o strategaeth is-ranbarthol Gorllewin Caer / Gogledd-ddwyrain Cymru

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar gan Pol Wong, y Cynghorydd Carrie Harper a'r Cynghorydd Marc Jones.

**Camau i'w cymryd**

### Cytunodd y Pwyllgor i wneud y canlynol:

### Ysgrifennu at y deisebwyr yn gofyn am eu hymateb i nifer o gwestiynau na chafodd eu gofyn.

### 3. Sesiwn dystiolaeth: P-03-243 Tynnu'n ôl yn ffurfiol o strategaeth is-ranbarthol Gorllewin Caer / Gogledd-ddwyrain Cymru

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar gan y Cynghorydd Denis Knowles, y Cynghorydd Tony Sharps a'r Cynghorydd Aled Roberts.

**Camau i'w cymryd**

### Cytunodd y Pwyllgor i wneud y canlynol:

### Ysgrifennu at Gynghrair Merswy Dyfrdwy yn gofyn am ei hymateb i nifer o gwestiynau na chafodd eu gofyn.

**4. Trafod y dystiolaeth: P-03-243 Tynnu'n ôl yn ffurfiol o strategaeth is-ranbarthol Gorllewin Caer / Gogledd- ddwyrain**

**Cymru**

Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafwyd gan y tystion.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i wneud y canlynol:

Ysgrifennu at y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb yn gofyn y canlynol:

a all y Gweinidog roi tystiolaeth o effaith y cynllun ar ddatblygiadau tai

manylion yr ymgynghoriad a gynhaliwyd ynghylch y strategaeth is-ranbarthol

a oes tystiolaeth bod Cynlluniau Datblygu Unedol / Cynlluniau Datblygu Lleol yn rhoi sylw i faterion sy'n ymwneud â thai a hunaniaeth ddiwylliannol yn sgil y strategaeth is-ranbarthol

esboniad ynghylch statws y cynllun o gofio nad yw'n gynllun statudol ond y gallai ddylanwadu ar ddatblygiad cynlluniau statudol

Ysgrifennu at y Gweinidog dros Dreftadaeth yn gofyn am ragor o wybodaeth am unrhyw ddirywiad mewn hunaniaeth ddiwylliannol Gymraeg a'r iaith Gymraeg, ac yn enwedig a yw'r Gweinidog o'r un farn â'r deisebwyr ac yn credu bod y cynllun wedi arwain at ddirywiad yn yr iaith Gymraeg.

Ysgrifennu at Gynghrair Merswy Dyfrdwy yn gofyn:

pa drafodaethau a gafwyd gydag awdurdodau lleol Cymru am y strategaeth, a phwy a fu'n rhan o'r trafodaethau hyn?

i ba raddau y mae'r swyddogion sy'n rhan o ddatblygu'r Cynlluniau Datblygu Lleol yn ymwybodol o'r strategaeth, a sut y mae honno'n effeithio ar eu gwaith?

a yw cymunedau'n ymwybodol o'r strategaeth pan ymgynghorir ar y Cynlluniau Datblygu Lleol, ac os ydynt, sut?

sut mae'r strategaeth yn cael ei monitro, ei hadolygu a'i gwerthuso?

## 5. Sesiwn dystiolaeth: P-03-234 Mae ar Gymru angen mwy o goed brodorol

## Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar gan Trefor Owen.

### 6. Trafod y dystiolaeth: P-03-234 Mae ar Gymru angen mwy o goed brodorol.

Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafwyd gan y tyst.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i wneud y canlynol:

Comisiynu briff gan Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau yn amlinellu'r manteision treth sydd ar gael ar hyn o bryd i gwmnïau sy'n plannu coed

Ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Cynaliadwyedd yn rhoi gwybod iddo am y ddeiseb ac yn gofyn a yw'r Pwyllgor yn bwriadu gwneud unrhyw waith ar ddatblygiad y pecyn gwirio ar gyfer gwrthbwyso carbon yn y dyfodol

Ysgrifennu at Gadeirydd yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig yn rhoi gwybod iddo am y ddeiseb ac yn gofyn a yw'r Is-bwyllgor yn bwriadu gwneud unrhyw waith ar ddatblygiad y Rhaglen Datblygu Gwledig yn y dyfodol

Ysgrifennu at y Gweinidog dros Faterion Gwledig yn gofyn am ei barn am y targed ar gyfer dyblu faint o goetir brodorol sydd gennym erbyn 2050 ac yn gofyn a oes unrhyw ardaloedd wedi'u dynodi ar gyfer plannu coed yn y dyfodol

## 7. Deiseb newydd

## (i) P-03-276 Cynnig ar gyfer Merched - Sustrans

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb hon am y tro cyntaf.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i wneud y canlynol:

Aros am ymateb gan y Dirprwy Brif Weinidog

### 8. Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

### (i) P-03-092 Ffordd Liniaru'r A465 i Ystad Ddiwydiannol Tafarnaubach

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i wneud y canlynol:

Ysgrifennu at Gyngor Sir Blaenau Gwent yn gofyn am ragor o wybodaeth am gynlluniau'r Cyngor ar gyfer yr ardal

Ysgrifennu at y Dirprwy Brif Weinidog yn gofyn am ragor o wybodaeth am y cais a gyflwynwyd gan Flaenau Gwent o dan y cynllun Llwybrau Diogelach yn y Gymuned, ac yn gofyn pa bryd y cyhoeddir pa gynlluniau a fu'n llwyddiannus

**(ii) P-03-099 Llwybr Ceffylau yn Nhalybont-ar-Wysg**

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i wneud y canlynol:

Ysgrifennu at y Dirprwy Brif Weinidog yn gofyn am y canlynol:

copi o adroddiad Asiantaeth Cefnffyrdd Canolbarth Cymru ar y llwybr

manylion y meini prawf a ddefnyddir i arfarnu cynlluniau gwella

manylion canlyniadau'r broses arfarnu cyn gynted ag y bydd y wybodaeth ar gael

**(iii) P-03-172 Adfer Fferi Abertawe/Cork**

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i wneud y canlynol:

Ysgrifennu at y Dirprwy Brif Weinidog yn gofyn am y canlynol:

y wybodaeth ddiweddaraf am y cyfarfodydd a gynhaliwyd â Phrif Weinidog Iwerddon a rhwng Croeso Cymru a Failite Ireland dros gyfnod y Nadolig

cadarnhad a yw'r bwlch cyllido a oedd yn dal i fodoli wedi cael sylw

**(iv) P-03-187 Diddymu'r Tollau ar ddwy Bont Hafren**

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i wneud y canlynol:

Ysgrifennu at y Dirprwy Brif Weinidog yn gofyn y canlynol:

pa bryd y mae'n bwriadu casglu tystiolaeth am effaith y tollau er mwyn i hynny fod yn sail i unrhyw gytundeb yn y dyfodol ar gyfer diddymu'r tollau ar ôl i'r bont gael ei throsglwyddo'n ôl i ofal yr Asiantaeth Briffyrdd

yn sgil yr hawl a roddwyd i'r Asiantaeth Briffyrdd bennu lefel a chyfnod y tollau, a fwriedir codi'r gyfradd lawn am y cyfnod llawn a ganiateir yn y pum mlynedd ar ôl 2016

**(v) P-03-189 Sefydliad Paul Sartori**

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i wneud y canlynol:

Cau'r ddeiseb a pharatoi adroddiad yn rhoi crynodeb o'r sefyllfa

**(vi) P-03-204 Atebolrwydd i'r cyhoedd ac ymgynghoriadau cyhoeddus ym maes Addysg Uwch**

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i wneud y canlynol:

Ysgrifennu at y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes gyda chrynodeb o brif bwyntiau'r deisebydd ac yn gofyn am ei barn am y materion dan sylw

**(vii) P-03-217 Llyfrgell Genedlaethol Cymru - Agor ar ddydd Sadwrn**

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i wneud y canlynol:

Ysgrifennu at y Gweinidog dros Dreftadaeth yn gofyn pa bryd y bydd y Llyfrgell Genedlaethol yn dechrau agor ar ddydd Sadwrn drachefn, a pha wasanaethau a fydd ar gael

Ysgrifennu at y deisebydd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y ddeiseb hon

**(viii) P-03-219 Fferyllfeydd yn y Barri**

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i wneud y canlynol:

Ysgrifennu at y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am y canlynol:

Canfyddiadau'r adroddiad a luniwyd gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen

Pa bryd y bydd y Grŵp Cyflawni Strategol yn cwblhau ei adroddiad ar geisiadau, ail-leoli ac apeliadau fferyllfeydd, a'r wybodaeth ddiweddaraf am y canlyniadau

**(ix) P-03-220 Gostyngwch y terfyn cyflymder ar yr A40 ger y Fenni**

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i wneud y canlynol:

Ysgrifennu at y Dirprwy Brif Weinidog yn gofyn am gael gwybod pa bryd y bydd y terfyn cyflymder yn cael ei adolygu ar y rhan hon o'r A40

**(x) P-03-224 Meithrinfa Stepping Stones**

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i wneud y canlynol:

Ysgrifennu at y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes yn gofyn am y canlynol:

rhagor o wybodaeth am y cynlluniau ymgynghori ar gyfer y Strategaeth Gofal Plant

manylion ynghylch pryd y bydd yr archwiliadau sy'n edrych a oes digon o ofal plant yn yr ardal yn cael eu cwblhau, a'r wybodaeth ddiweddaraf am ganfyddiadau'r archwiliadau

**(xi) P-03-231 Pa mor agos yw tyrbinau gwynt at dai preswyl**

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i wneud y canlynol:

Ysgrifennu at y deisebwyr yn gofyn am eu sylwadau am yr ymateb a gafwyd gan y Gweinidog ac yn gofyn a yw hynny wedi lleddfu eu pryderon

**(xii) P-03-240 Diogelwch ar ffordd yr A40 yn Llanddewi Felffre**

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i wneud y canlynol:

Ysgrifennu at y Dirprwy Brif Weinidog yn gofyn y canlynol:

pa bryd y bydd y terfyn cyflymder yn Llanddewi Felffre'n cael ei adolygu

pa bryd y gwneir penderfyniad ynghylch lledaenu'r llwybr troed

a fydd unrhyw werthusiad yn cael ei gynnal o ba mor effeithiol yw'r camau i arafu traffig, ac os hynny, pa bryd y caiff ei gwblhau

pa bryd y disgwylir i'r ffordd osgoi sydd ar y gweill gael ei hadeiladu

**(xiii) P-03-255 Darpariaeth ar gyfer rhai sydd ag anghenion addysg arbennig mewn ysgolion prif ffrwd**

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i wneud y canlynol:

Ysgrifennu at y deisebwyr yn gofyn am eu sylwadau ynghylch ymateb y Gweinidog

**(xiv) P-03-256 Trenau ychwanegol i Abergwaun**

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i wneud y canlynol:

Ysgrifennu at y Dirprwy Brif Weinidog yn gofyn y canlynol:

pa bryd y bydd y gwaith ailddyblu yn ardal Tre-gŵyr a Llwchwr yn cael ei gwblhau

pa bryd y mae'r Gweinidog yn rhagweld y bydd yn adolygu'r penderfyniad i ddarparu cyllid ar gyfer rhagor o drenau

a oes modd gael rhagor o fanylion am y pethau hynny sy'n rhwystro'r Dirprwy Brif Weinidog rhag cyllido'r gwasanaeth ychwanegol

Ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Menter a Dysgu yn gofyn a oedd yr adroddiad diweddar ar y seilwaith rheilffyrdd yng Nghymru yn gwneud unrhyw argymhellion ynghylch sefyllfa Abergwaun

Rhoi gwybod i'r deisebwyr am gynnydd y ddeiseb

**(xv) P-03-265 Cynnwys gwybodaeth ac addysg am adael cartref yn y Cwricwlwm Cenedlaethol - Shelter Cymru**

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i wneud y canlynol:

Ysgrifennu at y deisebwyr:

yn eu gwahodd i roi tystiolaeth mewn cyfarfod yn y dyfodol

yn nodi bod y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes wedi dweud y byddai ei swyddogion yn barod i drafod cynnwys y wefan Addysg Bersonol a Chymdeithasol gyda Shelter

yn gofyn pa bryd y caiff y prosiect Housemark ei gwblhau

**(xvi) P-03-267 Cynllun gweithredu i Gymru ynghylch hepatitis feirysol a gludir yn y gwaed**

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i wneud y canlynol:

Ysgrifennu at y deisebwyr yn rhoi gwybod iddynt am ymateb y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a bwriad y Pwyllgor i gau'r ddeiseb

Cau'r ddeiseb a llunio adroddiad yn rhoi crynodeb o'r sefyllfa

**(xvii) P-03-271 Ardrethi busnes yn Arberth**

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i wneud y canlynol:

Ysgrifennu at Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ganfod pa gymorth sy'n cael ei gynnig gan awdurdodau lleol i ysgafnhau'r baich ar fusnesau lleol yn gyffredinol, ac yn Narberth yn benodol

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**

**Chwefror 2010**